north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 22 Hydref 2021

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 |
| **AWDUR:** | Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno adroddiad Chwarter 2 (Gorffennaf - Medi) y Cynllun Twf a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

1.2. Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.

2.2. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.2. Mae adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

4.3. Mae dau atodiad i'r adroddiad hwn:
- Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2
- Cofrestr Risg y Portffolio - Hydref 2021

<u>Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2</u>

4.4. Mae adroddiad perfformiad Chwarter 2 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

4.5. Yn y chwarter hwn, cwblhawyd ail adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf a chyflawnwyd radd o Ambr-Gwyrdd. Dyma'r ail radd hyder cyflawni uchaf sydd ar gael ac yn welliant ar y radd 'Ambr' a dderbyniwyd yn 2020. Mae'r adolygiad a wnaed gan dîm adolygu annibynnol yn gwirio'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, yn benodol ers llofnodi'r Cynllun Twf Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth ym mis Rhagfyr 2020.

4.6. Ym mis Awst, cymeradwyodd y Bwrdd ddau Achos Busnes Amlinellol: Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai a'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol dan arweiniad Prifysgol Bangor. Mae proses sicrwydd y ddau brosiect hefyd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a byddant yn symud ymlaen i'r wedd nesaf ac yn cyflwyno Achos Busnes Llawn i'w ystyried unwaith y bydd y gweithgareddau caniatâd a chaffael perthnasol wedi'u cwblhau.

4.7. Hefyd y chwarter hwn, cwblhawyd y diweddariad blynyddol cyntaf i Achos Busnes y Portffolio, sy'n ofyniad dan y Cytundeb Twf Terfynol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Cyflwynwyd yr achos busnes wedi'i ddiweddaru i'r Bwrdd ym mis Medi a'i gymeradwyo i'w gyflwyno i'r Llywodraeth.

4.8 Mae mwyafrif y rhaglenni a'r prosiectau yn adrodd yn Ambr ar hyn o bryd, yn sgil oedi yn y broses o ddatblygu'r achosion busnes. Mae amserlen ddiwygiedig wedi'i chyflwyno i'r ddwy Lywodraeth fel rhan o ddiweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio.

4.9 Mae wyth prosiect yn adrodd yn Goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol a Champysau Cysylltiedig (Y Rhaglen Ddigidol) - Mae amserlen datblygu'r achos busnes wedi'i gwthio'n ôl i ganiatáu i gapasiti'r rhaglen ganolbwyntio ar ddau brosiect cychwynnol y Swyddfa Rheoli Portffolio.
- Morlais - yn sgil risgiau allweddol a phroblemau sy'n gysylltiedig â Chymorth Gwladwriaethol a chyfyngiadau ariannu, rhoi caniatâd a mecanweithiau cefnogi refeniw'r Llywodraeth.
- Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel - prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a refeniw.
- Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan (Y Rhaglen Tir ac Eiddo) - mae caniatâd cynllunio amlinellol ar y safle wedi llithro a bydd angen adolygu'r prosiect pan fydd y polisi cynllunio newydd ar gyfer y safle wedi'i sefydlu.
- Porth Caergybi (Y Rhaglen Tir ac Eiddo) - mae sgôp y prosiect yn cael ei adolygu yn sgil pryderon ynghylch cost y prosiect a'r achos masnachol.
- Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter - prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a refeniw.
- Prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol - prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a refeniw.

4.10 Mae nifer i weithgareddau caffael wedi'u cwblhau i gefnogi gwaith y tîm. Mae FarrPoint wedi'u penodi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes ar gyfer y prosiectau Ychydig % Olaf a Choridorau Cysylltiedig o fewn y Rhaglen Ddigidol. Hefyd, mae Arup wedi'u penodi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu methodoleg i helpu prosiectau i gyflawni ar ymrwymiadau'r Bwrdd i newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

4.11 Gan nad oes yr un Achos Busnes Llawn ar gyfer unrhyw brosiect wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd, mae'r unig wariant hyd yma yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

<u>Cofrestr Risg y Portffolio - Hydref 2021</u>

4.12 Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio (y Grŵp Swyddogion Gweithredol) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.

4.13 Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio a chamau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

4.14 Mae tair gradd risg gweddilliol wedi cynyddu y chwarter hwn -1) capasiti partneriaid i ddarparu cynrychiolwyr i fyrddau prosiect ac anhawster recriwtio i swyddi gwag o fewn y PMO, 2) buddsoddiad sector cyhoeddus a 3) amcanion gwario. Mae 2) a 3) wedi codi yn sgil y ffaith bod nifer o geisiadau i newid prosiectau yn cael eu hystyried. Mae dwy risg newydd wedi'u hychwanegu yn dilyn adroddiad sicrwydd y portffolio - cyllid refeniw a bwlch sgiliau.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.

5.2. Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn darparu trosolwg o broffil gwariant cyfalaf disgwyliedig cyllid y Cynllun Twf. Gan nad oes yr un achos busnes prosiect wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd, mae'r unig wariant hyd yma yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Yn y dyfodol, bydd fersiynau o'r adroddiad hwn yn cynnwys adrodd ar wariant ariannol yn dilyn cymeradwyo achos busnes y prosiectau.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

6.2. Mae adrodd rheolaidd ar berfformiad y Cynllun Twf yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ac yn un o ofynion allweddol Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 |
| **Atodiad 2** | Cofrestr Risg y Portffolio - Hydref 2021 |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**
Mae monitro cynnydd a risgiau yn un o dasgau allweddol y Bwrdd Uchelgais. Mae gofyn i'r Bwrdd ystyried y gofrestr a bodloni ei hyn ei fod yn cynrychioli adlewyrchiad gywir o statws risg a fod y gweithrediadau lleddfu yn cael eu cyfarch.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
Fel mae paragraff 1.2 o'r adroddiad blaen yn nodi, mae'r adroddiad yma'n ofyniad ar gyfer gallu parhau i hawlio rhandaliadau grant y Llywodraeth. Byddaf yn parhau i gynorthwyo

Swyddfa Rheoli Portffolio y Bwrdd Uchelgais i reoli'r risgiau perthnasol, ac yn benodol i gynhyrchu cynllun ar gyfer y tymor canolig ar gyfer y risg ariannu refeniw (R018) ychwanegwyd ar ddiwedd y gofrestr risg yn y chwarter yma.